# Fforwm
# Mynediad Lleol
# Bro Morgannwg

# Adroddiad
# Blynyddol
# 2019/20
# 2020/21



# Rhagair

Fel y Cadeirydd a'r Ysgrifennydd, rydym yn falch o gyflwyno Adroddiad Blynyddol diweddaraf Fforwm Mynediad Lleol Bro Morgannwg.

Mae'r adroddiad yn grynodeb byr iawn o waith y Fforwm, ac oherwydd effaith pandemig Covid-19, mae'n drosolwg cyfansawdd ar gyfer 2019/20 a 2020/21. Mae rhagor o fanylion, gan gynnwys agendâu, adroddiadau a chofnodion, ar gael ar wefan Cyngor Bro Morgannwg.

Fel y gwelsom ymhob agwedd ar fywyd dros y 12 mis diwethaf, mae Covid-19 wedi cael effaith sylweddol ar hamdden a gweithgareddau awyr agored. Serch hynny, mae'n braf iawn cydnabod perthynas adeiladol y Fforwm â Chyngor Bro Morgannwg.

Mae'n ofynnol i'r Fforwm gael ei ailbenodi bob tair blynedd ac mae'r aelodaeth bresennol wedi bod ar waith ers mis Chwefror 2019. Fodd bynnag, mae llawer o aelodau'r Fforwm wedi gwasanaethu ers llawer hirach na hynny ac yn parhau i roi o'u profiad i waith y Fforwm. Yn drist iawn, mae dau aelod hirsefydlog o'r Fforwm wedi marw yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, sef Mr Roland Pittard a Mr. Robin Simpson. Roedd y ddau yn unigolion ymroddedig iawn a oedd wedi gwasanaethu ar y Fforwm ers nifer o flynyddoedd. Byddwn yn gweld eisiau eu cyfraniadau, eu gwybodaeth, eu ffraethineb a'u hiwmor yn fawr.

Yn olaf, yn ogystal â diolch i aelodau'r Fforwm am eu hymdrechion yn ystod y flwyddyn, hoffem gofnodi unwaith eto ein gwerthfawrogiad o'r gefnogaeth a roddwyd gan y gwahanol swyddogion sy'n gysylltiedig â'r pandemig Covid-19, yn enwedig y tîm Hawliau Tramwy Cyhoeddus (HTC).

**Eddie Williams (Cadeirydd)**
**Gareth Davies (Ysgrifennydd)**

# Beth yw'r Fforwm Mynediad Lleol (FfMLl)?

Swyddogaeth Fforwm Mynediad Lleol Bro Morgannwg yw rhoi cyngor i'r Cyngor, Cyfoeth Naturiol Cymru, Llywodraeth Cymru ac eraill fel y bo'n briodol. Mae ei gylch gwaith yn ymdrin â gwella mynediad cyhoeddus i dir yn yr ardal at ddibenion hamdden awyr agored a mwynhau'r ardal mewn ffyrdd sy'n ystyried rheoli tir, a buddiannau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol ac addysgol.

# Cyfarfodydd

Cyfarfu'r Fforwm newydd ar ddau achlysur yn ystod 2019/20 – ym mis Chwefror a mis Rhagfyr 2019 ac, oherwydd cyfyngiadau Llywodraeth Cymru o ganlyniad i Covid-19, unwaith yn ystod 2020/21 ym mis Mawrth 2021.

# Crynodeb o waith y Fforwm

## Effeithiau Covid-19

Yn y cyfarfod a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2021, ystyriodd y Fforwm effeithiau pandemig Covid-19. Nodwyd gwaith y Tîm Hawliau Tramwy Cyhoeddus yn arbennig yn ystod cyfnod cychwynnol y pandemig ac mewn ymateb i'r cyfyngiadau symud cenedlaethol. Roedd hyn yn cynnwys:

- Cynnal ymgyrch gwybodaeth i'r cyhoedd.
- Darparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad i dirfeddianwyr ynghylch rheoliadau cyfreithiol Llywodraeth Cymru yn ymwneud â mynediad i gefn gwlad.
- Hwyluso cau llwybrau penodol am resymau iechyd y cyhoedd.

Un agwedd gadarnhaol a welwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf oedd swm yr arian grant allanol a dderbyniwyd. Felly, bu’r Cyngor yn brysur yn datblygu cynlluniau, ond roedd rhai wedi'u cyfyngu gan allu contractwyr i gael mynediad i safleoedd.

## Y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy (CGHT)

Mae'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy i'w ailgyhoeddi ac i'r perwyl hwnnw mae’r tîm HTC wedi bod yn paratoi ar gyfer hynny. Yn ystod 2019/20, ystyriodd y Fforwm CGHT wedi'i ddiweddaru a oedd yn cynnwys camau gweithredu a blaenoriaethau wedi'u diweddaru. Yn amodol ar ymgynghoriad cyhoeddus, disgwylir i'r CGHT newydd gael ei gynhyrchu ar ffurf drafft yn ystod 2021/22.

## Rhaglen Gwella Mynediad i’r Arfordir (RhGMA)

Mae'r Fforwm yn monitro cynnydd y RhGMA drwy adroddiadau rheolaidd gan swyddogion.

Roedd prosiectau y RhGMA yn ystod 2019/20 yn cynnwys:

- Cynnal a chadw gan gynnwys toriadau blynyddol, Grisiau a Gatiau Moch Llanilltud Fawr;
- Aberddawan – draenio;
- Trwyn yr As i Sain Dunwyd – lleihau’r llwybr;
- Yr As Fawr – gwaith dylunio ar gyfer atgyweirio'r llwybr;
- Porthceri – adlinio'r llwybr.

Roedd rhai o'r prosiectau uchod wedi'u bwrw ymlaen i 2020/21, megis draenio yn Aberddawan. Roedd prosiectau eraill yn ystod 2020/21 yn cynnwys adlinio'r llwybr rhwng Trwyn yr As a Sain Dunwyd, a gwaith dylunio i fynd i'r afael â llethr sy'n arwain i'r gorllewin o barc Porthceri.

## Blaenoriaethau Cynnal a Chadw

Ym mhob cyfarfod, derbyniodd y Fforwm adroddiadau yn ymwneud â Hawliau Tramwy Cyhoeddus y Cyngor (HTCau), sy'n rhyw 570km rhyngddynt. Rhennir materion cynnal a chadw yn chwe chategori i ddarparu dadansoddiad ystadegol.
Mae swyddogion hefyd yn cyflwyno diweddariad i bob cyfarfod ar Orchmynion Addasu a Chyfreithiol.

## Grant Gwella Mynediad 2020/21

Yn ystod 2020-21 darparwyd cyllid i awdurdodau lleol gan Lywodraeth Cymru drwy Grant Gwella Mynediad. Diben y grant oedd cefnogi’r gwaith o wella mynediad i'n rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus, tir mynediad agored a mannau gwyrdd.

Ar gyfer Bro Morgannwg, cyfanswm y grant ar gyfer 2020/21 oedd £72.9k i ariannu nifer o brosiectau gan gynnwys:

- Parc Porthceri – arwyneb newydd o’r traeth i'r maes parcio, ymylon llwybrau a deunyddiau estyllod.
- Disgiau nodi’r ffordd ledled y sir.
- Gwelliannau i arwynebau a draenio Tŷ Newton (ger Y Bont-faen).

## Llywodraeth Cymru – Diwygio Mynediad

Yn 2020/21, ystyriodd y Fforwm nodyn briffio ar gynigion Llywodraeth Cymru ynghylch mynediad ehangach i hamdden cefn gwlad.

Roedd Dirprwy Weinidog Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sefydlu 'Grŵp Cynghori ar Ddiwygio Mynediad' (GCDdM) yn cynnwys Grŵp Llywio a thri Grŵp Arbenigol (yn cynnwys cynrychiolwyr traws-sector) i ystyried y cynigion hyn ymhellach a gwneud argymhellion o ran eu gweithredu. Rôl y GCDdM fyddai ystyried yn fanwl sut y dylid gweithredu cynigion mwy arwyddocaol Llywodraeth Cymru i ddiwygio hawliau mynediad, yn ogystal â chofnodi a chynllunio mynediad cyhoeddus yn well.

Disgwylid cyhoeddi adroddiad GCDdM ym mis Gorffennaf 2021.

## Galluogi Adnoddau Naturiol a Lles yng Nghymru (GANaLl) – Llwybr Ceffylau a Beicffordd

Cafodd y Fforwm ei friffio ar gais a gyflwynwyd am gyllid gan brosiect Galluogi Adnoddau Naturiol a Lles Yng Nghymru Llywodraeth Cymru. Roedd cais y Fro yn cynnwys cynllun llwybr ceffylau a beicio mynydd a oedd yn cynnwys y canlynol:

- Adolygiad o'r ddarpariaeth llwybrau ceffylau a beiciau bresennol a chyfleoedd wedi'u targedu ar gyfer creu llwybrau;
- Cynnig a chostio rhaglen waith;
- Cydweithio â'r grwpiau defnyddiwr, cadwraeth a natur lleol i weithredu, cynnal a hyrwyddo'r rhwydwaith.

Nod y cynllun oedd llunio cynllun ar gyfer darparu llwybr ceffylau a beicio mynydd pellter hir a oedd yn cysylltu hybiau mynediad i lwybrau ceffylau ar draws yr ardal.

Roedd y Fforwm yn falch o ddysgu bod y mynegiant o ddiddordeb ar gyfer cam nesaf y prosiect wedi bod yn llwyddiannus, ac felly bod cais llawn wedi ei gyflwyno.

Roedd y cam mynegi diddordeb yn cynrychioli elfen gystadleuol y broses ac felly rhagwelwyd y cynigir y swm llawn i alluogi cyflawni'r cynllun. Gwerth y grant oedd £1,046,400 tan fis Mehefin 2023.

## Gweithdy Aelodau

Yn ystod mis Rhagfyr 2019 cynhaliodd y Fforwm weithdy i ystyried y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy Cyhoeddus wedi'i ddiweddaru. Roedd hyn yn gyfle i'r Fforwm helpu i lunio cynnwys a blaenoriaethau'r Cynllun newydd cyn ymgynghori â'r cyhoedd.

## Aelodaeth 2019 i 2021

**Eddie Williams(Cadeirydd)**

**Roland Pittard (Heddwch i'w Lwch) (Is-Gadeirydd 2019)**

**Frank Coleman**

**Susan Davies**

**Rebecca Exley**

**Ian Fraser**

**Sean Gaffney**

**Jerry Herbert**

**Catherine Lucas**

**Stuart McMillan**

**Robin Simpson (Heddwch i'w Lwch)**

**Geraint Thomas**

**Gareth Davies (Ysgrifennydd)**

### Mae rhagor o wybodaeth am Fforwm Mynediad Lleol Bro Morgannwg ar gael yn

**http://www.valeofglamorgan.gov.uk/en/living/environment/countryside/public_rights_of_way/local_access_forum.aspx**